

## Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

### Trosolwg y cymhwyster

Mae'r cymhwyster wedi ei selio ar ymarfer ac yn asesu gwybodaeth y dysgwyr a chymhwysedd i ymarfer mewn cyflogaeth.

Mae'r cymhwyster yn bennaf ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant rheoledig ar gyfer teuluoedd a phlant dan 8 oed a gwasanaethau plant GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant oed 0-19.

Mae wedi ei greu ar gyfer dysgwyr sydd mewn dysgu seiliedig ar waith. Bydd y cymhwyster yn asesu gwybodaeth ac ymarfer y dysgwyr yn eu gwaith ac yn gallu dangos eu bod yn gallu:

- deall, ac ymroi yn ymarferol, egwyddorion a gwerthoedd sydd wrth wraidd gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- deall, ac ymroi yn ymarferol, dulliau plentyn canolog mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- gwneud cyfraniad positif i'r sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant trwy ymarfer ei hun
- adlewyrchu ar ymarfer i wella trwy'r amser
- deall rolau swyddi a swyddogaethau o fewn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- defnyddio llythrenedd, rhifedd a sgiliau cymhwysedd digidol fel sy'n briodol o fewn y rôl.

### Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Yn addas ar gyfer:

- dysgwyr dros 16 oed sy'n gweithio mewn rôl gynorthwyol yn y sector gofal plant
- dysgwyr sydd wedi cwblhau Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- dysgwyr sydd wedi gweithio yn barod ac yn cwblhau rolau a chyfrifoldebau Lefel 2
- dysgwyr sy'n dychwelyd i'r gweithlu ar ôl seibiant gyrfa ac yn edrych i adnewyddu eu gwybodaeth a sgiliau yn y sector gofal plant.

Mae'n argymhelledig bod dysgwyr yn cwblhau cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd cyn, neu ochr yn ochr â'r cymhwyster hwn gan y bydd yn ofyniad ar gyfer ymarfer sydd wedi ei osod gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hefyd yn rhan o Brentisiaeth Sylfaenol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru).

### Beth fydd y cymhwyster yn cynnwys?

Mae cynnwys hanfodol y cymhwyster yn ymochrol â'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ac yn canolbwyntio'n ymarferol ar blant sydd dan 8 oed ac sydd wedi ei gefnogi gan wybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad plant fyny at oedran 18 oed.

Mae'r testunau canlynol yn ymddangos fel rhai hanfodol:

- egwyddorion a gwerthoedd
- diogelu
- iechyd a diogelwch
- iechyd, lles, dysgu a datblygiad
- ymarfer broffesiynol.

## Strwythur y cymhwyster

Mae'r cymhwyster yn cynnwys unedau hanfodol ac opsiynol. Mae'r unedau hanfodol yn darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau angenrheidiol er mwyn gallu ymateb i ofynion plant fyny at 8 oed.

Mae'r unedau opsiynol yn galluogi dysgwyr i ganolbwyntio ar eu dysgu a'u sgiliau ddatblygu ar gyfer meysydd allweddol o ddiddordeb sy'n berthnasol i anghenion plant, gan gynnwys trochi ieithyddol a dulliau positif ar gyfer cymorth ymddygiad.

Mae amrywiaeth o unedau gofal iechyd wedi eu cynnwys i adlewyrchu anghenion cymhleth rhai o blant sy'n derbyn gwasanaethau yn y gymuned.

I gwblhau'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant mae dysgwyr angen cyflawni isafswm o 35 credyd:

- 25 credyd angen eu cwblhau o'r grwp hanfodol
- Isafswm o 10 credyd angen eu dewis o'r gyfres o unedau opsiynol

## Asesu ar gyfer y cymhwyster

Mae dysgwyr angen cwblhau:

- Tasgau sydd wedi eu llunio'n allanol a'u marcio'n fewnol
- portffolio o dystiolaeth
- trafodaeth gyda'i aseswr

## Beth gall y cymhwyster arwain at?

Wrth gwblhau'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant yn galluogi dysgwyr i weithio fel gweithiwr Lefel 2 cymwysedig mewn modd dan oruchwyliaeth. Mae'r cymhwyster hefyd yn paratoi dysgwyr i symud ymlaen at:

- addysg bellach
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 4 Paratoi am Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Lefel 4 Ymarfer Broffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Mae dysgwyr angen cyflawni unrhyw ofynion sy'n gysylltiedig ag oedran a phrofiad cyn gallu symud ymlaen at rai rolau arweinyddiaeth yn y sector.

## Am wybodaeth bellach

Mae llawlyfr y cymhwyster a'r pecyn asesu ar gyfer y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant ar gael o wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru..

Am wybodaeth bellach, ewch i [www.healthandcarelearning.wales](http://www.healthandcarelearning.wales)